

**2020 Rhif (Cy.)**

**2020 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A487  
(Abergwaun i Aberteifi, Sir Benfro)  
(Cyfyngiadau a Gwaharddiadau  
Traffig Dros Dro) 2020

The A487 Trunk Road (Fishguard  
to Cardigan, Pembrokeshire)  
(Temporary Traffic Restrictions &  
Prohibitions) Order 2020

*Gwnaed* 2 Mehefin 2020  
*Yn dod i rym* 8 Mehefin 2020

*Made* 2 June 2020  
*Coming into force* 8 June 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun i Aberteifi, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 8 Mehefin 2020.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Fishguard to Cardigan, Pembrokeshire) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibitions) Order 2020 and it comes into force on 8 June 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—  
ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

2. In this Order—  
"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 8 Mehefin 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau a Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 8 June 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

### Restrictions & Prohibitions

**3.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

7.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Mehefin 2020

Nicci Hunter  
Arweinydd Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

6. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

### Application

7.—(1) The restrictions and prohibitions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### Suspensions

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3 and 4 are in operation.

### Duration of this Order

9. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

2 June 2020

Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

### ATODLEN 1

#### Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 364 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag Old Newport Road, Cwm Abergwaun hyd at bwynt tua 1.3 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth.

### SCHEDULE 1

#### Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from a point 364 metres north of its junction with Old Newport Road, Lower Town, Fishguard to a point approximately 1.3 kilometres south-west of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross.

The length of the trunk road that extends from a point approximately 1.2 kilometres north-east of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross to a point 100 metres west of its junction with the U3141 Ffordd Bedd Morris, Newport.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth hyd at bwynt 245 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog hyd at bwynt 340 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 274 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw hyd at ei chyffordd â chylchfan yr A487/A478 yn Aberteifi.

## **ATODLEN 2**

### **Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at bwynt 364 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag Old Newport Road, Cwm Abergwaun.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.3 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth hyd at bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 245 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog hyd at bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 340 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw hyd at bwynt 274 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

## **ATODLEN 3**

### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd yng Nghwm Abergwaun sy'n ymestyn tua'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4313 Hamilton Street hyd at Parc y Morfa Farm.

The length of the trunk road that extends from a point 185 metres east of the centre of its junction with the U3447 Feidr Bentick, Newport to a point 245 metres south-west of the centre of its junction with the U3195 road at Felindre Farchog.

The length of the trunk road that extends from a point 52 metres east of the centre of its junction with the U3195 road at Felindre Farchog to a point 340 metres west of the centre of its junction with the B4332 at Eglwyswrw.

The length of the trunk road that extends from a point 274 metres east of the centre of its junction with the B4332 at Eglwyswrw to its junction with the A487/A478 roundabout at Cardigan.

## **SCHEDULE 2**

### **Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking**

The length of the trunk road that extends from its junction with Fishguard Square to a point 364 metres north of its junction with Old Newport Road, Lower Town, Fishguard.

The length of the trunk road that extends from a point approximately 1.3 kilometres south-west of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross to a point approximately 1.2 kilometres north-east of the centre of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 100 metres west of its junction the U3141 Ffordd Bedd Morris, Newport to a point 185 metres east of the centre of its junction with the U3447 Feidr Bentick, Newport.

The length of the trunk road that extends from a point 245 metres west of the centre of its junction with the U3195 road at Felindre Farchog to a point 52 metres east of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 340 metres west of the centre of its junction with the B4332 at Eglwyswrw to a point 274 metres east of that junction.

## **SCHEDULE 3**

### **Temporary Prohibition of Vehicles**

The length of the trunk road at Lower Town, Fishguard that extends north-westbound from the centre of its junction with the B4313 Hamilton Street to Parc y Morfa Farm.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487  
(ABERGWAUN I ABERTEIFI, SIR BENFRO)  
(CYFYNGIADAU A GWAHARDDIADAU  
TRAFFIG DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, rhwng Abergwaun ac Aberteifi, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o 40 mya neu 10 mya ar y darnau o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a

ii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar y darnau o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

iii. gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau dros dro yn i. a ii. uchod yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 8 Mehefin 2020, ac yn weithredol tan 23:59 o'r gloch ar 11 Mehefin 2020.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn iii. uchod yn dod i rym ar 6 Medi 2020 ac yn weithredol ar ddyddiau Sul yn unig (07:00 hyd 19:00 o'r gloch) tan 11 Hydref 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE A487 TRUNK ROAD (FISHGUARD TO  
CARDIGAN, PEMBROKESHIRE)  
(TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS &  
PROHIBITIONS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road between Fishguard and Cardigan, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose a 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A487 trunk road described in Schedule 1 to this Notice; and

ii. impose a 10 mph speed limit on the lengths of the A487 trunk road described in Schedule 2 to this Notice.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

iii. prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A487 trunk road described in Schedule 3 to this Notice. The alternative route is also described therein.

It is expected that the temporary restrictions at i. and ii. above will come into force at 00:01 hours on 8 June 2020 and operate until 23:59 hours on 11 June 2020.

The temporary prohibition at iii. above is expected to come into force on 6 September 2020 and operate on Sundays only (07:00 – 19:00 hours) until 11 October 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

#### **ATODLEN 1**

##### **Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 364 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag Old Newport Road, Cwm Abergwaun hyd at bwynt tua 1.3 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth hyd at bwynt 245 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog hyd at bwynt 340 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwysrwr.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 274 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwysrwr hyd at ei chyffordd â chylchfan yr A487/A478 yn Aberteifi.

#### **ATODLEN 2**

##### **Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at bwynt 364 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag Old Newport Road, Cwm Abergwaun.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

#### **SCHEDULE 1**

##### **Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking**

The length of the trunk road that extends from a point 364 metres north of its junction with Old Newport Road, Lower Town, Fishguard to a point approximately 1.3 kilometres south-west of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross.

The length of the trunk road that extends from a point approximately 1.2 kilometres north-east of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross to a point 100 metres west of its junction with the U3141 Ffordd Bedd Morris, Newport.

The length of the trunk road that extends from a point 185 metres east of the centre of its junction with the U3447 Feidr Bentick, Newport to a point 245 metres south-west of the centre of its junction with the U3195 road at Felindre Farchog.

The length of the trunk road that extends from a point 52 metres east of the centre of its junction with the U3195 at Felindre Farchog to a point 340 metres west of the centre of its junction with the B4332 at Eglwysrwr.

The length of the trunk road that extends from a point 274 metres east of the centre of its junction with the B4332 at Eglwysrwr to its junction with the A487/A478 roundabout at Cardigan.

#### **SCHEDULE 2**

##### **Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking**

The length of the trunk road that extends from its junction with Fishguard Square to a point 364 metres north of its junction with Old Newport Road, Lower Town, Fishguard.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.3 cilometr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth hyd at bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 245 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U3195 yn Felindre Farchog hyd at bwynt 52 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 340 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4332 yn Eglwyswrw hyd at bwynt 274 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

### **ATODLEN 3**

#### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybr Arall**

Y darn o'r gefnffordd yng Nghwm Abergwaun sy'n ymestyn tua'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4313 Hamilton Street hyd at Parc y Morfa Farm.

Y prif lwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar yr A40 tua'r de i Hwlfordd, yr A40 tua'r dwyrain i Gylchfan Penblewin, Arberth a'r A478 tua'r gogledd i Aberteifi er mwyn ailymuno â'r A487 tua'r de/gogledd: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin. Bydd llwybr arall byrrach ar gael ar gyfer traffig lleol.

The length of the trunk road that extends from a point approximately 1.3 kilometres south-west of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross to a point approximately 1.2 kilometres north-east of the centre of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 100 metres west of its junction the U3141 Ffordd Bedd Morris, Newport to a point 185 metres east of the centre of its junction with the U3447 Feidr Bentick, Newport.

The length of the trunk road that extends from a point 245 metres west of the centre of its junction with the U3195 road at Felindre Farchog to a point 52 metres east of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 340 metres west of the centre of its junction with the B4332 at Eglwyswrw to a point 274 metres east of that junction.

### **SCHEDULE 3**

#### **Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Route**

The length of the trunk road at Lower Town, Fishguard that extends north-westbound from the centre of its junction with the B4313 Hamilton Street to Parc y Morfa Farm.

The main alternative route for eastbound vehicles is via the southbound A40 to Haverfordwest, eastbound A40 to Penblewin Roundabout, Narberth and northbound A478 to Cardigan to rejoin the south/northbound A487: vice versa for westbound vehicles. A shorter alternative route will be available for local traffic.